

# Crynodeb ac Esboniad

## CYFANSODDIAD Y CYNGOR

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi cytuno ar gyfansoddiad sy'n nodi'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu, sut y caiff penderfyniadau eu gwneud a'r gweithdrefnau a ddilynir er mwyn sicrhau bod y rhain yn effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol. Mae rhai o'r prosesau hyn yn ofynnol yn ôl y gyfraith, ac eraill yn fater o ddewis i'r Cyngor.

Cafodd y Cyfansoddiad ei fabwysiadu ym mis Mai 2002 a'i adolygu ym mis Mai 2003.

Mae'r Cyfansoddiad wedi'i rannu'n nifer o **Erthyglau** sy'n nodi'r rheolau sylfaenol sy'n llywodraethu busnes y Cyngor (Rhan 1). **Mae gweithdrefnau manylach a chodau ymarfer** wedi'u rhestru mewn rheolau a phrotocolau ar wahân (Rhannau 2-7).

## BETH SYDD YN YR ERTHYGLAU?

Mae Erthygl 1 y Cyfansoddiad yn ymrwymo'r Cyngor i:-

1. alluogi'r Cyngor i roi arweinyddiaeth eglur i'r gymuned mewn partneriaeth â dinasyddion, busnesau a sefydliadau eraill;
2. cynorthwyo dinasyddion i gymryd rhan weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr awdurdod lleol;
3. helpu cynghorwyr i gynrychioli eu hetholwyr yn fwy effeithiol;
4. sicrhau bod modd gwneud penderfyniadau'n effeithlon ac yn effeithiol;
5. creu dull grymus ac effeithiol o ddal penderfynwyr i gyfrif yn gyhoeddus;
6. sicrhau na fydd neb yn adolygu nac yn craffu ar benderfyniad y mae wedi ymwneud yn uniongyrchol ag ef;
7. sicrhau bod y rheiny sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau yn adnabyddus i bobl leol a'u bod yn esbonio'r rhesymau dros benderfyniadau; a
8. darparu dull o wella'r ffordd y darperir gwasanaethau i'r gymuned.

Mae Erthyglau 2 –15 yn esbonio hawliau dinasyddion a sut y mae'r rhannau allweddol o'r Cyngor yn gweithredu.

Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Aelodau'r Cyngor (Erthygl 2).
- Dinasyddion a'r Cyngor (Erthygl 3).
- Y Cyngor llawn (Erthygl 4).
- Cadeirio'r Cyngor (Erthygl 5).
- Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu (Erthygl 6).
- Y Weithrediaeth (Erthygl 7).
- Pwyllgorau Rheoleiddio a Phwyllgorau Eraill (Erthygl 8).
- Y Pwyllgor Safonau (Erthygl 9).
- Trefniadau ar y Cyd (Erthygl 10).
- Swyddogion (Erthygl 11).
- Gwneud Penderfyniadau (Erthygl 12).
- Cyllid, Contractau a Materion Cyfreithiol (Erthygl 13).
- Adolygu a Diwygio'r Cyfansoddiad (Erthygl 14).
- Atal Dros Dro, Dehongli a Chyhoeddi'r Cyfansoddiad (Erthygl 15).

## **SUT MAE'R CYNGOR YN GWEITHREDU**

Mae'r Cyngor yn cynnwys 73 o gynghorwyr a etholir pob pedair blynedd. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi ymestyn cyfnod cyntaf y weinyddiaeth o un flwyddyn (hyd fis Mai 2004), ond bydd hyd y tymor yn dychwelyd i bob pedair blynedd wedi hynny. Mae'r cynghorwyr yn atebol yn ddemocrataidd i breswylwyr eu hadran etholiadol. Mae prif ddyletswydd y cynghorwyr i'r gymuned gyfan, ond mae ganddynt ddyletswydd arbennig i'w hetholwyr, gan gynnwys y rhai nad oeddent wedi pleidleisio drostynt.

Rhaid i gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig sydd â hawliau pleidleisio gytuno i ddilyn cod ymddygiad er mwyn sicrhau safonau uchel yn y ffordd maent yn cyflawni eu dyletswyddau. Mae'r Pwyllgor Safonau yn eu hyfforddi a'u cynghori ar y cod ymddygiad.

Mae'r holl gynghorwyr yn cwrdd gyda'i gilydd fel y Cyngor. Fel arfer mae cyfarfodydd y Cyngor ar agor i'r cyhoedd. Yma bydd y cynghorwyr yn penderfynu ar bolisiâu cyffredinol y Cyngor ac yn pennu'r gyllideb yn flynyddol. Mae'r Cyngor yn penodi Arweinydd sydd yn ei dro yn penodi aelodau'r Cabinet, pob un mewn maes cyfrifoldeb penodol. Yr Arweinydd ac aelodau'r Cabinet, sef y Weithrediaeth, sy'n gwneud y rhan fwyaf o'r prif benderfyniadau. Caiff y Weithrediaeth ei goruchwyllo gan nifer o bwyllgorau craffu. Prif rôl y rhain yw dal y Weithrediaeth yn atebol. Mae gan y pwyllgorau craffu rolau eraill hefyd a ddisgrifir yn fanylach yn Erthygl 6 o'r Cyfansoddiad hwn.

## **SUT Y CAIFF PENDERFYNIADAU EU GWNEUD**

Y weithrediaeth yw'r rhan o'r Cyngor sy'n gyfrifol am wneud y rhan fwyaf o'r prif benderfyniadau. Mae'r weithrediaeth yn cynnwys yr Arweinydd (a benodir gan y Cyngor) a naw aelod Cabinet (a benodir gan yr Arweinydd). Caiff y busnes sydd i'w ystyried gan y weinyddiaeth, y pwyllgorau trosolwg a chraffu, a'r Cyngor cyfan, ei

gyhoeddi yn y flaenraglen waith. Mae cyfarfodydd y weithrediaeth, y pwyllgorau trosolwg a chraffu, y Cyngor a phwyllgorau eraill ar agor i'r cyhoedd ac eithrio lle trafodir materion personol neu gyfrinachol, fel y'u diffinnir gan y gyfraith. Rhaid i'r weithrediaeth wneud penderfyniadau sy'n unol â chyllideb a pholisïau cyffredinol y Cyngor. Os yw eisiau gwneud penderfyniad sydd y tu allan i'r gyllideb neu'r fframwaith polisi, rhaid cyfeirio hwn i'r Cyngor cyfan.

## **TROSOLWG A CHRAFFU**

Mae pedwar pwyllgor trosolwg a chraffu sy'n cynnal gwaith y weithrediaeth a'r Cyngor cyfan. Maent yn rhoi mwy o lais i ddinasyddion ym materion y Cyngor trwy gynnal ymchwiliadau cyhoeddus i faterion o bwys lleol. Mae'r rhain yn arwain at adroddiadau ac argymhellion sy'n llywio'r weithrediaeth a'r Cyngor cyfan o ran ei bolisïau a'i gyllideb, a'r ffordd y mae'n darparu gwasanaethau. Hefyd, mae pwyllgorau trosolwg a chraffu'n monitro penderfyniadau'r weithrediaeth. Gallant 'alw i mewn' penderfyniad a wnaed gan y weithrediaeth ond nas gweithredwyd eto. Oni bai y nodir y mater yn un "brys", ni chaiff y penderfyniad ei weithredu hyd nes y caiff ei adolygu gan y Pwyllgor Craffu. Mae hyn yn eu galluogi i ystyried a yw'r penderfyniad yn briodol. Gallent argymhell i'r weithrediaeth ailystyried y penderfyniad. Hefyd, gall y weithrediaeth neu'r Cyngor ymgynghori â'r pwyllgorau ar benderfyniadau sydd i ddod a datblygu polisi.

## **STAFF Y CYNGOR**

Mae pobl yn gweithio i'r Cyngor (sef 'swyddogion') sy'n rhoi cyngor, gwneud penderfyniadau a'u rhoi ar waith, a rheoli'r gwaith o ddarparu ei wasanaethau o ddydd i ddydd. Mae gan rai swyddogion ddyletswydd benodol i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu o fewn y gyfraith ac yn defnyddio ei adnoddau'n ddoeth. Mae cod ymarfer yn llywodraethu'r perthnasoedd rhwng swyddogion ac aelodau'r Cyngor.

## **HAWLIAU DINASYDDION**

Mae gan ddinasyddion nifer o hawliau wrth ymwneud â'r Cyngor. Mae'r rhain wedi'u rhestru'n fanylach yn Erthygl 3. Mae rhai o'r rhain yn hawliau cyfreithiol, ac eraill yn dibynnu ar brosesau'r Cyngor ei hun. Gall y Ganolfan Cyngor ar Bopeth leol roi cyngor ar hawliau cyfreithiol yr unigolyn.

Os yw aelodau'r cyhoedd yn defnyddio gwasanaethau cyngor penodol, er enghraifft rhiant i ddisgybl ysgol neu denant cyngor, mae ganddynt hawliau ychwanegol. Nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn y Cyfansoddiad hwn.

Mae gan ddinasyddion yr hawl i:

- bleidleisio mewn etholiadau lleol, os ydynt wedi'u cofrestru;
- cysylltu â'u cynghorydd lleol ynghylch unrhyw faterion sydd o bwys iddynt;
- cael neu archwilio copi o'r Cyfansoddiad o dalu ffioedd llungopio rhesymol;
- mynychu cyfarfodydd y weithrediaeth, y Cyngor a'i bwyllgorau heblaw lle caiff materion personol neu gyfrinachol eu trafod;

- llofnodi deiseb i ofyn am refferendwm ar weithrediaeth ar ffurf maer;
- darganfod, o'r flaenraglen waith, pa fusnes a gaiff ei ystyried gan y weithrediaeth, y pwyllgorau trosolwg a chraffu neu'r Cyngor cyfan;
- gweld adroddiadau a phapurau cefndir a ystyriwyd gan y weithrediaeth, y Cyngor ac unrhyw un o'i bwyllgorau a'r cofnod o unrhyw benderfyniadau a wnaed gan y Cyngor, ei bwyllgorau a'r weithrediaeth ac eithrio os ydynt yn cynnwys gwybodaeth bersonol neu gyfrinachol;
- cwyno i'r Cyngor am ansawdd unrhyw un o'i wasanaethau gan ddefnyddio'r weithdrefn Gwyno Gorfforaethol (mae taflenni ar gael yn disgrifio hyn);
- cwyno i'r Ombwdsmon os credant eu bod wedi cael cam oherwydd nad yw'r Cyngor wedi dilyn ei weithdrefnau'n gywir. Fodd bynnag, fe'u hanogir i wneud hynny dim ond ar ôl defnyddio proses gwyno'r Cyngor ei hun;
- cwyno i'r Ombwdsmon os oes ganddynt dystiolaeth sy'n dangos, yn eu tyb nhw, nad yw cynghorydd neu aelod cyfetholedig o'r Cyngor wedi dilyn Cod Ymddygiad yr Aelodau;
- archwilio cyfrifon y Cyngor yn unol â darpariaethau'r Deddfau Seneddol a rhoi eu barn i'r archwilydd allanol; ac
- ymdrin â'r Cyngor yn Gymraeg neu yn Saesneg

Mae'r Cyngor yn croesawu cyfranogiad gan ei ddinasyddion yn ei waith. I gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau fel dinesydd, cysylltwch â Rheolwr Cyfathrebu'r Cyngor.

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi manylion cyfarfodydd yn wythnosol. Gallwch weld y papurau agenda ac adroddiadau (ac eithrio eitemau cyfrinachol) a chofnodion cyfarfodydd yn swyddfeydd y Cyngor, Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, ac ar wefan y Cyngor [www.caerphilly.gov.uk](http://www.caerphilly.gov.uk) neu gallwch drefnu i gael copïau drwy gysylltu â'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd.

Gallwch gysylltu â'r holl swyddogion a restrir uchod drwy ffonio:

**(01443) 815588**